

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Senedd Cymru (Members and Elections) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Schedule 1	Atodlen 1
Section 18	Adran 18
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 19-25	Adrannau 19-25
Long title	Teitl hir

Mick Antoniw 90

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.
Atodlen 1, tudalen 15, llinell 6, hepgorer ‘Aelodau’r’ a mewnosoder ‘Aelodau o’r’.

Mick Antoniw 91

Schedule 1, page 15, line 7, leave out –

‘the first general election held after 6 April 2026;

- (b) at each subsequent general election until the first set of regulations under section
49J of the 2013 Act is in force’

And insert –

‘a general election the poll for which is held after 6 April 2026 and before the first set of regulations made under section 49J of the 2013 Act takes effect’.

Atodlen 1, tudalen 15, llinell 7, hepgorer

‘ –

- (a) yn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026;
- (b) ym mhob etholiad cyffredinol dilynol hyd nes y mae’r set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J o Ddeddf 2013 mewn grym’

A mewnosoder –

‘mewn etholiad cyffredinol y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i’r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith’.

Mick Antoniw

92

Schedule 1, page 16, line 3, leave out –

‘name for the purposes of identifying the constituency in communication through the medium of Welsh, and

- (b) a name for the purposes of identifying the constituency in communication through the medium of English,

unless the Commission considers one name is acceptable for communication through either language’

And insert –

‘single name for the purposes of identifying the constituency in communication through Welsh and English, unless the Commission considers this would be unacceptable (in which case the constituency may have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English)’.

Atodlen 1, tudalen 16, llinell 3, hepgorer –

‘at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy gyfrwng y Gymraeg,
a

- (b) enw at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy gyfrwng y Saesneg,

oni bai bod y Comisiwn yn ystyried bod un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy’r naill iaith neu’r llall’

A mewnosoder –

‘unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol (os felly caniateir i’r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg)’.

Mick Antoniw

93

Schedule 1, page 16, leave out lines 9 to 19 and insert –

‘(2) Before making its initial report (see paragraph 6) the Commission must –

- (a) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the names proposed for identifying the Senedd constituencies, and

(b) consider its proposals having regard to any representations received from the Commissioner on the orthography of the proposed names.

(3) A requirement under this Schedule to set out the name or proposed name of a Senedd constituency in a report is, where the Commission considers the constituency should have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English, a requirement to set out both names –

- (a) in the Welsh language version of the report, and
- (b) in the English language version of the report.’.

Atodlen 1, tudalen 16, hepgorer llinellau 9 hyd at 19 a mewnosoder –

‘(2) Cyn gwneud ei adroddiad cychwynnol (gweler paragraff 6) rhaid i’r Comisiwn –

- (a) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig ar gyfer adnabod etholaethau’r Senedd, a
- (b) ystyried ei gynigion gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd gan y Comisiynydd ar orgraff yr enwau arfaethedig.

(3) Mae gofyniad o dan yr Atodlen hon i nodi enw neu enw arfaethedig etholaeth Senedd mewn adroddiad, pan fo’r Comisiwn yn ystyried y dylai’r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg, yn ofyniad i nodi’r ddau enw –

- (a) yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad, a
- (b) yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.’.

Mick Antoniw

94

Schedule 1, page 16, after line 30, insert –

‘() During the first period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.’.

Atodlen 1, tudalen 16, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

‘() Yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau rhaid i’r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.’.

Mick Antoniw

95

Schedule 1, page 16, line 35, after ‘period’, insert ‘(including any representations on the initial report made by the Welsh Language Commissioner when consulted under paragraph 6(*sub-paragraph to be inserted by amendment 94*))’.

Atodlen 1, tudalen 16, llinell 37, ar ôl ‘hwnnw’, mewnosoder ‘(gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cychwynnol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â’r Comisiynydd o dan baragraff 6(*is-baragraff i’w fewnosod gan welliant 94*))’.

Mick Antoniw

96

Schedule 1, page 17, line 1, leave out –

‘it is considering any changes to the proposals set out in the initial report for the names of the Senedd constituencies for communication through the medium of Welsh –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed names, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner’

And insert –

‘, having considered its proposals, it is considering any changes to the proposed name of a Senedd constituency as set out in the initial report –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
- (iii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name’.

Atodlen 1, tudalen 17, llinell 1, hepgorer –

‘yn ystyried unrhyw newidiadau i’r cynigion a nodir yn yr adroddiad cychwynnol ar gyfer enwau etholaethau’r Senedd i’w defnyddio ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd’

A mewnosoder –

‘, ar ôl ystyried ei gynigion, yn ystyried unrhyw newidiadau i enw arfaethedig etholaeth Senedd fel y’i nodir yn yr adroddiad cychwynnol, rhaid iddo –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig’.

Mick Antoniw

97

Schedule 1, page 17, after line 18, insert –

‘() During the second period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.’.

Atodlen 1, tudalen 17, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘() Yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau rhaid i’r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.’.

Mick Antoniw

98

Schedule 1, page 17, line 22, after ‘received’, insert ‘during that period (including any representations on the second report made by the Welsh Language Commissioner when consulted under subparagraph ([sub-paragraph to be inserted by amendment 97]))’.



Atodlen 1, tudalen 17, llinell 23, ar ôl ‘gafwyd’, mewnosoder ‘yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr ail adroddiad a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â’r Comisiynydd o dan is-baragraff (*[is-baragraff i’w fewnosod gan welliant 97]*))’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Darren Millar

24*

Schedule 1, page 17, line 22, after ‘received’, insert ‘during that period’.

Atodlen 1, tudalen 17, llinell 23, ar ôl ‘gafwyd’, mewnosoder ‘yn ystod y cyfnod hwnnw’.

Mick Antoniw

99

Schedule 1, page 17, line 24, leave out –

‘it is considering any changes to the proposals set out in the second report for the names of the Senedd constituencies for communication through the medium of Welsh –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed names, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner’

And insert –

‘, having considered its proposals, it is considering any changes to the proposed name of a Senedd constituency as set out in the second report –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name’.

Atodlen 1, tudalen 17, llinell 25, hepgorer –

‘yn ystyried unrhyw newidiadau i’r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad ar gyfer enwau etholaethau’r Senedd i’w defnyddio ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd’

A mewnosoder –

‘, ar ôl ystyried ei gynigion, yn ystyried unrhyw newidiadau i enw arfaethedig etholaeth Senedd fel y’i nodir yn yr ail adroddiad, rhaid iddo –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig’.



Mick Antoniw

100

Schedule 1, page 19, line 28, leave out ‘returning a member of Parliament of the United Kingdom, described in an Order in Council made under section 4 of the Parliamentary Constituencies Act 1986 (c. 56) following the report of the Boundary Commission for Wales laid by the Speaker of the House of Commons before Parliament on 28 June 2023, in accordance with section 3 of that Act’ and insert ‘, specified in the Parliamentary Constituencies Order 2023 (S.I. 2023/1230), returning a member of Parliament of the United Kingdom’.

Atodlen 1, tudalen 19, llinell 26, hepgorer ‘sy’n dychwelyd aelod o Senedd y Deyrnas Unedig, a ddisgrifir mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 4 o Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (p. 56) yn dilyn adroddiad y Comisiwn Ffiniau i Gymru a osodwyd gerbron Senedd y DU gan Lefarydd Tŷr Cyffredin ar 28 Mehefin 2023, yn unol ag adran 3 o’r Ddeddf honno’ a mewnosoder ‘, a bennir yng Ngorchymyn Etholaethau Seneddol 2023 (O.S. 2023/1230), sy’n dychwelyd aelod o Senedd y Deyrnas Unedig’.

Mick Antoniw

78

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 18, tudalen 12, llinell 16, hepgorer ‘Aelodau’r’ a mewnosoder ‘Aelodau o’r’.

Mick Antoniw

79

Section 18, page 12, line 17, leave out ‘1 April 2030’ and insert ‘the first set of regulations made under section 49J of the 2013 Act takes effect’.

Adran 18, tudalen 12, llinell 17, hepgorer ‘1 Ebrill 2030’ a mewnosoder ‘i’r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith’.

Darren Millar

14

Schedule 2, page 21, line 6, leave out –

- ‘90% of the electoral quota, and
- (b) no more than 110%’

And insert –

- ‘95% of the electoral quota, and
- (b) no more than 105%’.

Atodlen 2, tudalen 21, llinell 6, hepgorer –

- ‘90% o’r cwota etholiadol, a
- (b) dim mwy na 110%’

A mewnosoder –

- ‘95% o’r cwota etholiadol, a
- (b) dim mwy na 105%’.

Mick Antoniw

101

Schedule 2, page 22, line 15, leave out –

‘name for the purposes of identifying the constituency in communication through the medium of Welsh, and

(b) a name for the purposes of identifying the constituency in communication through the medium of English,

unless the Commission considers one name is acceptable for communication through either language’

And insert –

‘single name for the purposes of identifying the constituency in communication through Welsh and English, unless the Commission considers this would be unacceptable (in which case the constituency may have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English)’.

Atodlen 2, tudalen 22, llinell 16, hepgorer –

‘at ddiben adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy gyfrwng y Gymraeg, a

(b) enw at ddiben adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy gyfrwng y Saesneg,

oni bai bod y Comisiwn yn ystyried bod un enw yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu drwy’r naill iaith neu’r llall’

A mewnosoder –

‘unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol (os felly caniateir i’r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg)’.

Mick Antoniw

102

Schedule 2, page 22, leave out lines 21 to 33 and insert –

‘(2) Before making its initial report (see section 49E) the Commission must, if it intends to make a proposal relating to the name of a Senedd constituency –

(a) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and

(b) consider its proposal having regard to any representations from the Commissioner on the orthography of the proposed name.

(3) A requirement under this Part to set out the name or proposed name of a Senedd constituency in a report is, where the Commission considers the constituency should have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English, a requirement to set out both names –

- (a) in the Welsh language version of the report, and
- (b) in the English language version of the report.’.

Atodlen 2, tudalen 22, hepgorer llinellau 22 hyd at 32 a mewnosoder –

- ‘(2) Cyn gwneud ei adroddiad cychwynnol (gweler adran 49E) rhaid i’r Comisiwn, os yw’n bwriadu gwneud cynnig yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd –
 - (a) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
 - (b) ystyried ei gynnig gan roi sylw i unrhyw sylwadau gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.
- (3) Mae gofyniad o dan y Rhan hon i nodi enw neu enw arfaethedig etholaeth Senedd mewn adroddiad, pan fo’r Comisiwn yn ystyried y dylai’r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy’r Gymraeg a’r Saesneg, yn ofyniad i nodi’r ddau enw –
 - (a) yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad, a
 - (b) yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.’.

Mick Antoniw

103

Schedule 2, page 23, after line 10, insert –

- ‘() During the first period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.’.

Atodlen 2, tudalen 23, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- ‘() Yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau rhaid i’r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.’.

Mick Antoniw

104

Schedule 2, page 23, line 16, after ‘period’, insert ‘(including any representations on the initial report made by the Welsh Language Commissioner when consulted under section 49E(*subsection to be inserted by amendment 103*))’.

Atodlen 2, tudalen 23, llinell 16, ar ôl ‘hwnnw’, mewnosoder ‘(gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cychwynnol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â’r Comisiynydd o dan adran 49E(*is-adran i’w mewnosod gan welliant 103*))’.

Mick Antoniw

105

Schedule 2, page 24, line 25, after ‘concerned’, insert ‘(subject to subsection (9)(c))’.

Atodlen 2, tudalen 24, llinell 29, ar ôl ‘hwy’, mewnosoder ‘(yn ddarostyngedig i is-adran (9)(c))’.



Mick Antoniw

106

Schedule 2, page 25, line 8, leave out –

‘it is considering any changes that were not set out in the initial report to the names of the Senedd constituencies –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed names for communication through the medium of Welsh, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner’

And insert –

‘, having considered its proposals, it intends to make a proposal that was not set out in the initial report relating to the name of a Senedd constituency –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name’.

Atodlen 2, tudalen 25, llinell 7, hepgorer –

‘yn ystyried unrhyw newidiadau i enwau etholaethau’r Senedd nas nodwyd hwy yn yr adroddiad cychwynnol, rhaid iddo –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig i’w defnyddio mewn cyfathrebiad yn y Gymraeg, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Comisiynydd’

A mewnosoder –

‘, ar ôl ystyried ei gynigion, yn bwriadu gwneud cynnig nas nodwyd yn yr adroddiad cychwynnol yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd, rhaid iddo –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig’.

Darren Millar

25

Schedule 2, page 25, leave out lines 17 to 20.

Atodlen 2, tudalen 25, hepgorer llinellau 17 hyd at 20.

Darren Millar

54

Schedule 2, page 25, after line 30, insert –

- ‘() publish a document –
 - (i) containing records of the public hearings held under section 49G, and
 - (ii) setting out any representations (of the kind described in section 49F(2)(b)) received during the second period for representations.’

Atodlen 2, tudalen 25, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

- ‘() cyhoeddi dogfen –
 - (i) yn cynnwys cofnodion o’r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G, a
 - (ii) yn nodi unrhyw sylwadau (o’r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau.’

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Darren Millar

26

Schedule 2, page 25, leave out lines 31 to 32 and insert –

- ‘() publish any representations (of the kind described in section 49F(2)(b)) received during the second period for representations,
- () publish records of the public hearings held under section 49G,
- () inform any person it considers appropriate of how to access the report and the representations and records the Commission has published.’

Atodlen 2, tudalen 25, hepgorer llinellau 32 hyd at 33 a mewnosoder –

- ‘() cyhoeddi unrhyw sylwadau (o’r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau,
- () cyhoeddi cofnodion o’r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G,
- () hysbysu unrhyw berson y mae’n ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu’r adroddiad a’r sylwadau a’r cofnodion y mae’r Comisiwn wedi eu cyhoeddi.’

Darren Millar

55

Schedule 2, page 25, line 32, after ‘report’, insert ‘and the document published under paragraph ([paragraph to be inserted by amendment 54])’.

Atodlen 2, tudalen 25, llinell 33, ar ôl ‘adroddiad’, mewnosoder ‘a’r ddogfen a gyhoeddwyd o dan baragraff ([paragraff i’w fewnosod gan welliant 54])’.

Darren Millar

56

Schedule 2, page 25, line 33, leave out ‘including representations in respect of the representations made during the public hearings’ and insert –

- ‘(ii) in respect of any representations made during the public hearings, and
- (iii) on any representations (of the kind described in section 49F(2)(b)) received during the second period for representations’.

Atodlen 2, tudalen 25, llinell 34, hepgorer ‘gan gynnwys sylwadau mewn cysylltiad â’r sylwadau a wnaed yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus’ a mewnosoder –

- ‘(ii) mewn cysylltiad ag unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus, a
- (iii) ar unrhyw sylwadau (o’r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau’.

Mick Antoniw

107

Schedule 2, page 25, after line 37, insert –

- ‘() During the final period for representations the Commission must consult the Welsh Language Commissioner.’.

Atodlen 2, tudalen 25, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() Yn ystod y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau rhaid i’r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.’.

Mick Antoniw

108

Schedule 2, page 26, line 1, after ‘received’, insert –

‘during that period (including any representations made by the Welsh Language Commissioner, when consulted under subsection (*subsection to be inserted by amendment 107*)), on the second report and on the representations mentioned in subsection (3)(c)(*first sub-paragraph to be inserted by amendment 56*) and (*second sub-paragraph to be inserted by amendment 56*)’.

Atodlen 2, tudalen 26, llinell 1, ar ôl ‘gafwyd’, mewnosoder –

‘yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg, pan ymgynghorwyd â’r Comisiynydd o dan is-adran (*is-adran i’w mewnosod gan welliant 107*)), ar yr ail adroddiad ac ar y sylwadau a grybwyllir yn is-adran (3)(c)(*yr is-baragraff cyntaf i’w fewnosod gan welliant 56*) a (*yr ail is-baragraff i’w fewnosod gan welliant 56*)’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Darren Millar

27*

Schedule 2, page 26, line 1, after ‘received’, insert ‘during that period’.

Atodlen 2, tudalen 26, llinell 1, ar ôl ‘gafwyd’, mewnosoder ‘yn ystod y cyfnod hwnnw’.

Mick Antoniw

109

Schedule 2, page 26, line 4, leave out –

‘it is considering any changes that were not set out in the second report to the names of the Senedd constituencies –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed names for communication through the medium of Welsh, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner’

And insert –

‘, having considered its proposals, it intends to make a proposal that was not set out in the second report relating to the name of a Senedd constituency –

- (i) consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed name, and
- (ii) have regard to any representations made by the Commissioner on the orthography of the proposed name’.

Atodlen 2, tudalen 26, llinell 3, hepgorer –

‘yn ystyried unrhyw newidiadau nad oeddent wedi eu nodi yn yr ail adroddiad i enwau etholaethau’r Senedd, rhaid i’r Comisiwn –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig i’w defnyddio mewn cyfathrebiad yn y Gymraeg, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd’

A mewnosoder –

‘, ar ôl ystyried ei gynigion, yn bwriadu gwneud cynnig nas nodwyd yn yr ail adroddiad yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd, rhaid iddo –

- (i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a
- (ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig’.

Darren Millar

15

Schedule 2, page 26, line 12, leave out ‘December 2028, and before 1 December’ and insert ‘November 2028, and before 1 November’.

Atodlen 2, tudalen 26, llinell 12, hepgorer ‘Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr’ a mewnosoder ‘Tachwedd 2028, a chyn 1 Tachwedd’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Darren Millar

28*

Schedule 2, page 26, line 18, leave out ‘details of any changes that are required to be made to the Senedd constituencies’ and insert ‘constituencies into which Wales should be divided for the purposes of the election of Members of the Senedd’.

Atodlen 2, tudalen 26, llinell 18, hepgorer ‘nodi manylion unrhyw newidiadau y mae’n ofynnol i’w gwneud i etholaethau’r Senedd’ a mewnosoder ‘nodi’r etholaethau y dylid rhannu Cymru iddynt at ddibenion ethol Aelodau o’r Senedd’.

Mick Antoniw

110

Schedule 2, page 26, line 27, leave out –

- ‘the Senedd constituencies that are to be changed,
- (b) the names of the Senedd constituencies that are to be changed, and
- (c) whether each Senedd constituency that is to be changed is to be’

And insert –

- ‘all the constituencies for which Members of the Senedd are to be returned,
- (b) the names of all those constituencies, and
- (c) whether each constituency is’.

Atodlen 2, tudalen 26, llinell 27, hepgorer –

- ‘etholaethau’r Senedd sydd i’w newid,
- (b) enwau etholaethau’r Senedd sydd i’w newid, ac
- (c) pa un a fydd pob etholaeth Senedd sydd i’w newid’

A mewnosoder –

- ‘yr holl etholaethau y dychwelir Aelodau o’r Senedd ar eu cyfer,
- (b) enwau’r holl etholaethau hynny, ac
- (c) a yw pob etholaeth’.

Darren Millar

16

Schedule 2, page 27, line 10, leave out ‘six’ and insert ‘four’.

Atodlen 2, tudalen 27, llinell 11, hepgorer ‘chwe’ a mewnosoder ‘bedwar’.

Darren Millar

17

Schedule 2, page 27, line 16, leave out ‘six’ and insert ‘four’.

Atodlen 2, tudalen 27, llinell 17, hepgorer ‘chwe’ a mewnosoder ‘bedwar’.

Mick Antoniw

111

Schedule 2, page 27, line 32, after ‘election’, insert –

‘, or

(b) an extraordinary general election, the poll for which is held –

(i) during the period of one month ending with the day before the day on which the poll for the next ordinary general election would have been held under section 3(1) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32), disregarding paragraphs (a) and (b) of that subsection, or

(ii) on the day on which the poll for the next ordinary general election would have been held under section 3(1) of the Government of Wales Act 2006, disregarding paragraphs (a) and (b) of that subsection’.

Atodlen 2, tudalen 27, llinell 35, ar ôl ‘nesaf’, mewnosoder –

‘, neu

(b) etholiad cyffredinol eithriadol, y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer –

(i) yn ystod y cyfnod o fis sy’n gorffen â’r diwrnod cyn y diwrnod y byddai’r bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), gan ddiystyru paragraffau (a) a (b) o’r is-adran honno, neu

(ii) ar y diwrnod y byddai’r bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ddiystyru paragraffau (a) a (b) o’r is-adran honno’.

Mick Antoniw

112

Schedule 2, page 29, line 17, after ‘table 2,’ insert –

‘(a) at the appropriate places insert –

“General election (<i>Etholiad cyffredinol</i>)	Section 49L(1)”;
“Local government boundaries (<i>Ffiniau llywodraeth leol</i>)	Section 49L(1)”;
“Remote facilities (<i>Cyfleusterau o bell</i>)	Section 49F(4)”;
“Review date (<i>Dyddiad yr adolygiad</i>)	Section 49B(2)”;
“Senedd constituency (<i>Etholaeth Senedd</i>)	Section 49L(1)”;

Atodlen 2, tudalen 29, llinell 20, ar ôl ‘nhabl 2,’ mewnosoder –

‘(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder –

“Cyfleusterau o bell (<i>Remote facilities</i>)	Adran 49F(4)”;
“Dyddiad yr adolygiad (<i>Review date</i>)	Adran 49B(2)”;
“Etholaeth Senedd (<i>Senedd constituency</i>)	Adran 49L(1)”;
“Etholiad cyffredinol (<i>General election</i>)	Adran 49L(1)”;
“Ffiniau llywodraeth leol (<i>Local government boundaries</i>)	Adran 49L(1)”;

Mick Antoniw

113

Schedule 2, page 29, at the beginning of line 23, insert –

- ‘(1) The Welsh Ministers must, whether or not the final report on the first boundary review conducted under Part 3A of the 2013 Act sets out changes that are required to be made to the constituencies for which Members of the Senedd are to be returned, make regulations under section 49J that set out, in accordance with the determinations in that report –
- (a) the boundaries of all those constituencies,
 - (b) the names of all those constituencies, and
 - (c) whether each constituency is a county constituency or borough constituency, and section 49J(1) of the 2013 Act is to be read accordingly.’.

Atodlen 2, tudalen 29, ar ddechrau llinell 26, mewnosoder –

- ‘(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, pa un a yw’r adroddiad terfynol ar yr adolygiad cyntaf o ffiniau a gynhaliwyd o dan Ran 3A o Ddeddf 2013 yn nodi newidiadau sy’n ofynnol i’r etholaethau y dychwelir Aelodau o’r Senedd ar eu cyfer ai peidio, wneud rheoliadau o dan adran 49J sy’n nodi, yn unol â’r penderfyniadau yn yr adroddiad hwnnw –
- (a) ffiniau’r holl etholaethau hynny,
 - (b) enwau’r holl etholaethau hynny, ac
 - (c) a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu’n etholaeth fwrdeistrefol, ac mae adran 49J(1) o Ddeddf 2013 i’w darllen yn unol â hynny.’.

Mick Antoniw 114

Schedule 2, page 29, line 23, leave out ‘first regulations made under section 49J of the 2013 Act (as inserted by paragraph 1 of this Schedule) are in force’ and insert ‘regulations mentioned in subparagraph (*[sub-paragraph to be inserted by amendment 113]*) take effect’.

Atodlen 2, tudalen 29, llinell 26, hepgorer ‘cyntaf a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 (fel y’i mewnosodir gan baragraff 1 o’r Atodlen hon) mewn grym’ a mewnosoder ‘a grybwyllir yn is-baragraff (*[is-baragraff i’w fewnosod gan welliant 113]*) yn cymryd effaith’.

Mick Antoniw 115

Schedule 2, page 29, line 25, leave out ‘that’ and insert ‘the 2013’.

Atodlen 2, tudalen 29, llinell 28, hepgorer ‘o’r Ddeddf honno’ a mewnosoder ‘o Ddeddf 2013’.

Darren Millar 36

Page 12, after line 17, insert a new section –

‘PART []
REFERENDUM

[] A referendum on this Act

- (1) The Welsh Ministers must by regulations cause a referendum to be held throughout Wales about whether all provisions in this Act should come into force.
- (2) If the majority of the voters in a referendum held by virtue of subsection (1) vote in favour of all provisions in this Act coming into force, the provisions in this Act are to come into force in accordance with section 24.’

Tudalen 12, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

‘RHAN []
REFFERENDWM

[] Refferendwm ar y Ddeddf hon

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau beri bod refferendwm yn cael ei gynnal ledled Cymru ynghylch a ddylai holl ddarpariaethau’r Ddeddf hon ddod i rym.
- (2) Os yw mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm a gynhelir yn rhinwedd is-adran (1) yn pleidleisio o blaid holl ddarpariaethau’r Ddeddf hon yn dod i rym, mae’r darpariaethau yn y Ddeddf hon i ddod i rym yn unol ag adran 24.’

Darren Millar 9

Page 12, line 22, leave out section 19.

Tudalen 12, llinell 23, hepgorer adran 19.

Darren Millar

10

Section 19, page 12, leave out lines 33 to 34.

Adran 19, tudalen 12, hepgorer llinellau 34 hyd at 35.

Darren Millar

19

Section 19, page 12, after line 34, insert –

‘() when carrying out the review a committee established under paragraph (a) must –

- (i) engage with relevant stakeholders;
- (ii) carry out a public consultation, and’.

Adran 19, tudalen 12, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

‘() cynnig bod rhaid i bwyllgor a sefydlir o dan baragraff (a), wrth gynnal yr adolygiad –

- (i) ymgysylltu â’r rhanddeiliaid perthnasol;
- (ii) cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ac’.

Heledd Fychan

116

Section 19, page 12, after line 34, insert –

‘() when carrying out a review of the extent to which the elements of a healthy democracy are present in Wales, the matters to be considered by the committee must include the support available for Members of the Senedd and each political party registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41) and represented in the Senedd to carry out their roles, and’.

Adran 19, tudalen 12, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

‘() cynnig bod rhaid i’r materion sydd i’w hystyried gan bwyllgor, wrth gynnal adolygiad o’r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru, gynnwys y cymorth sydd ar gael i Aelodau o’r Senedd a phob plaid wleidyddol sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41) ac sydd wedi ei chynrychioli yn y Senedd i gyflawni eu rolau, ac’.

Darren Millar

11

Section 19, page 13, leave out lines 1 to 3.

Adran 19, tudalen 13, hepgorer llinellau 1 hyd at 3.

Darren Millar

12

Section 19, page 13, leave out lines 1 to 3 and insert –

‘(3) The motion may propose a date before which a report on the review must be completed by the committee.’.

Adran 19, tudalen 13, hepgorer llinellau 1 hyd at 3 a mewnosoder –

‘(3) Caiff y cynnig gynnig dyddiad y mae rhaid i’r pwyllgor gwblhau adroddiad ar yr adolygiad yn gynharach nag ef.’.

Jane Dodds

49

Section 19, page 13, after line 3, insert –

‘(c) when carrying out a review of Part 2 of this Act in accordance with subsection (2)(a), the committee must take into account the principles listed and described in Table 1 –

TABLE 1

Principle	Description
Boundaries.	The electoral system should be based on clearly defined geographic areas which are meaningful to people and take into account existing communities of interest, and existing electoral and administrative boundaries.
Diversity.	The electoral system should encourage and support the election of a body of representatives which broadly reflects the population of Wales.
Government accountability and effectiveness.	The electoral system should encourage the return of effective, accountable and stable governments, whether majorities or coalitions.
Member accountability.	The electoral system should ensure that all Members of the Senedd are clearly accountable to voters and able to represent them effectively and appropriately in the national interest.
Proportionality.	The electoral system should be no less proportional than the electoral arrangements in place immediately before this Act came into force and preferably be more proportional.
Simplicity.	The electoral system should be designed with simplicity and intelligibility for voters in mind.
Sustainability and adaptability.	The electoral system should be able to respond and adapt to changing political, demographic and legislative trends, needs and circumstances without requiring further fundamental change in the near future.
Voter choice.	The electoral system should enable voters to indicate a preference for a party’s list, a named candidate on a party’s list or an individual candidate.

Adran 19, tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- (c) cynnig bod rhaid i’r pwyllgor, wrth gynnal adolygiad o Ran 2 o’r Ddeddf hon yn unol ag is-adran (2)(a), ystyried yr egwyddorion a restrir ac a ddisgrifir yn Nhabl 1 –

TABL 1

Egwyddor	Disgrifiad
Ffiniau.	Dylai’r system etholiadol fod yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol sydd wedi eu diffinio’n glir ac sy’n ystyrlon i bobl, ac sy’n ystyried cymunedau buddiant presennol, a’r ffiniau etholiadol a gweinyddol presennol.
Amrywiaeth.	Dylai’r system etholiadol annog a chefnogi ethol corff o gynrychiolwyr sy’n adlewyrchu poblogaeth Cymru yn fras.
Atebolrwydd ac effeithiolrwydd y Llywodraeth.	Dylai’r system etholiadol annog dychwelyd llywodraethau effeithiol, atebol a sefydlog, pa un a ydynt yn llywodraethau mwyafrifol neu’n glymbleidiau.
Atebolrwydd Aelodau.	Dylai’r system etholiadol sicrhau bod pob Aelod o’r Senedd yn amlwg atebol i’r pleidleiswyr ac yn gallu eu cynrychioli’n effeithiol ac yn briodol er budd y genedl.
Cyfranoldeb.	Ni ddylai’r system etholiadol fod yn llai cyfrannol na’r trefniadau etholiadol a oedd ar waith yn union cyn i’r Ddeddf hon ddod i rym, a dylai, o ddewis, fod yn fwy cyfrannol.
Symlwrwydd.	Dylai’r system etholiadol fod wedi ei chynllunio gan roi sylw i symlwrwydd ac eglurder i bleidleiswyr.
Cynaliadwyedd a’r gallu i addasu.	Dylai’r system etholiadol allu ymateb ac addasu i dueddiadau, anghenion ac amgylchiadau gwleidyddol, demograffig a deddfwriaethol sy’n newid, heb fod angen rhagor o newid sylfaenol yn y dyfodol agos.
Dewis i bleidleiswyr.	Dylai’r system etholiadol alluogi pleidleiswyr i nodi dewis o ran rhestr plaid, ymgeisydd sydd wedi ei enwi ar restr plaid neu ymgeisydd unigol.

Darren Millar

13

Section 19, page 13, after line 3, insert –

- ‘(3) Subsection (4) applies if, following a review carried out by a committee of the Senedd established pursuant to a motion tabled in accordance with subsection (2) of any of the matters mentioned in subsection (2)(a), a report on the review is laid before the Senedd by the committee.
- (4) If this subsection applies, the Welsh Ministers must lay before the Senedd a statement that –
- (a) sets out the Welsh Ministers’ response to the report mentioned in subsection (3), and
 - (b) sets out what steps, if any, the Welsh Ministers intend to take in relation to any recommendations in the report.’.

Adran 19, tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- ‘(3) Mae is-adran (4) yn gymwys os, yn dilyn adolygiad a gynhelir gan un o bwyllgorau’r Senedd a sefydlir yn unol â chynnig a gyflwynir yn unol ag is-adran (2) o unrhyw un neu ragor o’r materion a grybwyllir yn is-adran (2)(a), gosodir adroddiad ar yr adolygiad gerbron y Senedd gan y pwyllgor.
- (4) Os yw’r is-adran hon yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd ddatganiad sy’n –
- (a) nodi ymateb Gweinidogion Cymru i’r adroddiad a grybwyllir yn is-adran (3), a
 - (b) nodi pa gamau, os oes rhai, y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion yn yr adroddiad.’.

Darren Millar

53

Section 19, page 13, after line 3, insert –

- ‘(3) Subsection (4) applies if, following a review of any of the matters mentioned in subsection (2)(a) by a committee established pursuant to a motion tabled in accordance with subsection (1), a report on the review is laid before the Senedd by the committee.
- (4) If this subsection applies, the Welsh Ministers must lay before the Senedd a statement that sets out the Welsh Ministers’ response to the report mentioned in subsection (3).’.

Adran 19, tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- ‘(3) Mae is-adran (4) yn gymwys os, yn dilyn adolygiad o unrhyw rai o’r materion a grybwyllir yn is-adran (2)(a) gan bwyllgor a sefydlir yn unol â chynnig a gyflwynir yn unol ag is-adran (1), y gosodir adroddiad ar yr adolygiad gerbron y Senedd gan y pwyllgor.
- (4) Os yw’r is-adran hon yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd ddatganiad sy’n nodi ymateb Gweinidogion Cymru i’r adroddiad a grybwyllir yn is-adran (3).’.

Darren Millar

20

Page 13, after line 3, insert a new section –

[] Review of operation of the Act by the Welsh Ministers after 2026 general election

- (1) The Welsh Ministers must, before the end of the period of six months beginning with the first day after the end of the reporting period, prepare and publish a report on the operation of the provisions of this Act.
- (2) Before preparing a report for the purposes of subsection (1), the Welsh Ministers must –
 - (a) engage with relevant stakeholders, and
 - (b) carry out a public consultation.
- (3) The report published under subsection (1) must be laid before the Senedd.
- (4) In subsection (1), “reporting period” means the period of three years beginning with the day of the first Senedd election for which the poll is held after 6 April 2026.’.

Tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd –

[] Adolygiad o weithrediad y Ddeddf gan Weinidogion Cymru ar ôl etholiad cyffredinol 2026

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy’n dechrau â’r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad darpariaethau’r Ddeddf hon.
- (2) Cyn llunio adroddiad at ddibenion is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) ymgysylltu â’r rhanddeiliaid perthnasol, a
 - (b) cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.
- (3) Rhaid i’r adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) gael ei osod gerbron y Senedd.
- (4) Yn is-adran (1), ystyr “cyfnod adrodd” yw’r cyfnod o dair blynedd sy’n dechrau â diwrnod etholiad cyntaf y Senedd y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026.’.

Jane Dodds

50

Page 13, after line 3, insert a new section –

[] Review of operation of the Act by the Welsh Ministers after 2026 general election

- (1) The Welsh Ministers must, before the end of the period of six months beginning with the first day after the end of the reporting period, prepare and publish a report on the operation and effect of the provisions of the 2006 Act that are amended, or inserted into that Act, by Parts 1 and 2 of this Act (the Senedd and its Members, the number of Welsh Ministers, and the voting system in general elections etc.).
- (2) Before preparing a report for the purposes of subsection (1), the Welsh Ministers must –
 - (a) carry out a public consultation, and
 - (b) consult –
 - (i) the Electoral Commission,
 - (ii) the Democracy and Boundary Commission Cymru,
 - (iii) constituency returning officers,

- (iv) registered political parties that have submitted a list of candidates to be Members of the Senedd at the first general election the poll for which is held after 6 April 2026,
 - (v) third sector bodies,
 - (vi) persons the Welsh Ministers consider to be independent and to have relevant expertise, and
 - (vii) any other persons the Welsh Ministers consider appropriate.
- (3) The report published under subsection (1) must be laid before the Senedd.
- (4) When carrying out a review of Part 2 of this Act in accordance with subsection (1), the Welsh Ministers must take into account the principles listed and described in Table 1 –

TABLE 1

Principle	Description
Boundaries.	The electoral system should be based on clearly defined geographic areas which are meaningful to people and take into account existing communities of interest, and existing electoral and administrative boundaries.
Diversity.	The electoral system should encourage and support the election of a body of representatives which broadly reflects the population of Wales.
Government accountability and effectiveness.	The electoral system should encourage the return of effective, accountable and stable governments, whether majorities or coalitions.
Member accountability.	The electoral system should ensure that all Members of the Senedd are clearly accountable to voters and able to represent them effectively and appropriately in the national interest.
Proportionality.	The electoral system should be no less proportional than the electoral arrangements in place immediately before this Act came into force and preferably be more proportional.
Simplicity.	The electoral system should be designed with simplicity and intelligibility for voters in mind.
Sustainability and adaptability.	The electoral system should be able to respond and adapt to changing political, demographic and legislative trends, needs and circumstances without requiring further fundamental change in the near future.
Voter choice.	The electoral system should enable voters to indicate a preference for a party’s list, a named candidate on a party’s list or an individual candidate.

- (5) In subsection (1), “reporting period” means –

- (a) for sections 1, 2 and 6 and Part 2, the period beginning with the day the provisions come into force in accordance with section 24(2) of this Act, and ending on the day after the first meeting of the Senedd following the first general election the poll for which is held after 6 April 2026;
 - (b) for sections 3, 4 and 5, the period beginning with the day the provisions come into force in accordance with section 24(3) of this Act, and ending on the day after the first meeting of the Senedd following the first general election the poll for which is held after 6 April 2026.
- (6) For the purposes of subsection (2)(b) –
- (a) “constituency returning officer” has the meaning given by section 7(6) of the 2006 Act;
 - (b) “registered political party” has the meaning given by section 6(2) of the 2006 Act;
 - (c) “third sector body” means a body (other than a public body) whose activities are carried on otherwise than for profit.’.

Tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd –

[1] Adolygiad o weithrediad y Ddeddf gan Weinidogion Cymru ar ôl etholiad cyffredinol 2026

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy’n dechrau â’r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith darpariaethau Deddf 2006 a gaiff eu diwygio, neu eu mewnosod yn y Ddeddf honno, gan Rannau 1 a 2 o’r Ddeddf hon (y Senedd a’i Haelodau, nifer Gweinidogion Cymru, a’r system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol etc.).
- (2) Cyn llunio adroddiad at ddibenion is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a
 - (b) ymgynghori â’r canlynol –
 - (i) y Comisiwn Etholiadol,
 - (ii) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru,
 - (iii) swyddogion canlyniadau etholaethol,
 - (iv) pleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr i fod yn Aelodau o’r Senedd yn yr etholiad cyffredinol cyntaf y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026,
 - (v) cyrff trydydd sector,
 - (vi) personau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol, a
 - (vii) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i’r adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) gael ei osod gerbron y Senedd.
- (4) Wrth gynnal adolygiad o Ran 2 o’r Ddeddf hon yn unol ag is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr egwyddorion a restrir ac a ddisgrifir yn Nhabl 1 –

TABL 1

Egwyddor	Disgrifiad
----------	------------

Ffiniau.	Dylai’r system etholiadol fod yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol sydd wedi eu diffinio’n glir ac sy’n ystyrion i bobl, ac sy’n ystyried cymunedau buddiant presennol, a’r ffiniau etholiadol a gweinyddol presennol.
Amrywiaeth.	Dylai’r system etholiadol annog a chefnogi ethol corff o gynrychiolwyr sy’n adlewyrchu poblogaeth Cymru yn fras.
Atebolrwydd ac effeithiolrwydd y Llywodraeth.	Dylai’r system etholiadol annog dychwelyd llywodraethau effeithiol, atebol a sefydlog, pa un a ydynt yn llywodraethau mwyafrifol neu’n glymbleidiau.
Atebolrwydd Aelodau.	Dylai’r system etholiadol sicrhau bod pob Aelod o’r Senedd yn amlwg atebol i’r pleidleiswyr ac yn gallu eu cynrychioli’n effeithiol ac yn briodol er budd y genedl.
Cyfranoldeb.	Ni ddylai’r system etholiadol fod yn llai cyfrannol na’r trefniadau etholiadol a oedd ar waith yn union cyn i’r Ddeddf hon ddod i rym, a dylai, o ddewis, fod yn fwy cyfrannol.
Symrlrwydd.	Dylai’r system etholiadol fod wedi ei chynllunio gan roi sylw i symrlrwydd ac eglurder i bleidleiswyr.
Cynaliadwyedd a’r gallu i addasu.	Dylai’r system etholiadol allu ymateb ac addasu i dueddiadau, anghenion ac amgylchiadau gwleidyddol, demograffig a deddfwriaethol sy’n newid, heb fod angen rhagor o newid sylfaenol yn y dyfodol agos.
Dewis i bleidleiswyr.	Dylai’r system etholiadol alluogi pleidleiswyr i nodi dewis o ran rhestr plaid, ymgeisydd sydd wedi ei enwi ar restr plaid neu ymgeisydd unigol.

(5) Yn is-adran (1), ystyr “cyfnod adrodd” yw –

- (a) ar gyfer adrannau 1, 2 a 6 a Rhan 2, y cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r darpariaethau i rym yn unol ag adran 24(2) o’r Ddeddf hon, ac sy’n dod i ben drannoeth cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026;
- (b) ar gyfer adrannau 3, 4 a 5, y cyfnod sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r darpariaethau i rym yn unol ag adran 24(3) o’r Ddeddf hon, ac sy’n dod i ben drannoeth cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar ôl 6 Ebrill 2026.

(6) At ddibenion is-adran (2)(b) –

- (a) mae i “swyddog canlyniadau etholaethol” yr ystyr a roddir i “constituency returning officer” gan adran 7(6) o Ddeddf 2006;
- (b) mae i “plaid wleidyddol gofrestredig” yr ystyr a roddir i “registered political party” gan adran 6(2) o Ddeddf 2006;

- (c) ystyr “corff trydydd sector” yw corff (heblaw corff cyhoeddus) y cynhelir ei weithgareddau ac eithrio i wneud elw.’.

Mick Antoniw

80

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 20, tudalen 13, llinell 12, hepgorer ‘ei phasio neu’.

Mick Antoniw

81

Page 13, after line 12, insert a new section –

[] Power to set Senedd election campaign expenditure limits in connection with section 1 and Part 2

- (1) The Welsh Minsters may by regulations, in connection with section 1 and Part 2, amend paragraph 6 of Schedule 9 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41) (limits on campaign expenditure) to set the limits applying to campaign expenditure incurred by or on behalf of a registered party that contests one or more constituencies at a general election.
- (2) Regulations under subsection (1) may set limits by reference to either or both –
 - (a) the number of constituencies contested by a party at a general election;
 - (b) the number of candidates on a list submitted by a party under section 7 of the 2006 Act.
- (3) Regulations under subsection (1) may make –
 - (a) supplementary, incidental or consequential provision;
 - (b) transitional, transitory or saving provision,and such provision may amend, repeal, revoke or modify this Act or any other enactment (whenever passed or made).
- (4) The Welsh Ministers may make regulations under subsection (1) only with the consent of the Electoral Commission.
- (5) In this section, “campaign expenditure” and “registered party” have the same meaning as in paragraph 6 of Schedule 9 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000.’.

Tudalen 13, ar ôl llinell 13, mewnosoder adran newydd –

[] Pŵer i osod terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol y Senedd mewn cysylltiad ag adran 1 a Rhan 2

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau, mewn cysylltiad ag adran 1 a Rhan 2, ddiwygio paragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41) (terfynau ar wariant ymgyrch) i osod y terfynau sy’n gymwys i wariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran plaid gofrestrdig sy’n ymladd un neu ragor o etholaethau mewn etholiad cyffredinol.
